# Amcanion a chamau llesiant drafft Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Gaerfyrddin (2023-28)

Cyngor oddi wrth Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru

9fed Tachwedd 2022

Diolch am gymryd yr amser i gwrdd â ni yn rheolaidd yn ystod y cyfnod cyngor statudol o 14 wythnos. Gobeithiwn fod ein cyngor, cefnogaeth ac adborth ar hyd y ffordd wedi bod yn ddefnyddiol.

Rhannwyd y cynllun llesiant drafft gyda ni ar 27 Hydref. Er ei fod yn hwyrach na'r disgwyl, o ystyried bod y cyfnod cyngor statudol wedi'i sbarduno ym mis Gorffennaf, rydym wedi trafod pa mor bwysig ydoedd i'r BGC ofyn am farn partneriaid allweddol a'u cefnogaeth cyn i fanylion y camau gael eu rhannu gyda'n swyddfa.

Isod mae ein cyngor a luniwyd mewn perthynas ag 1) Eich amcanion llesiant drafft, 2) y 5 dull o weithio a 3) sylwadau eraill.

## 1: Eich amcanion llesiant drafft

**Amcan llesiant 1: Sicrhau economi cynaliadwy a chyflogaeth deg.**
Ar y cyfan, mae'r amcan hwn yn ymdrin â maes ffyniant yn dda, gyda ffocws ar sgiliau, trafnidiaeth, gwaith teg, caffael a'r iaith Gymraeg. Mae'n hynod o galonogol i weld y ffocws ar y Gymraeg yn yr amcan hwn.

Mae ein cyngor isod yn amlygu cyfleoedd i adeiladu ar y gwaith a wnaethpwyd hyd yn hyn ac yn macsimeiddio eich cyfraniad at nodau llesiant Cymru:

<u>Economi carbon isel</u>
Mae yna gyfleoedd i wneud cysylltiadau â'ch trydydd amcan llesiant ac ystyried y cysylltiadau a'r camau gweithredu ar ddatgarboneiddio a'r newid i gymdeithas carbon isel, er mwyn helpu'r ardal i symud tuag at 'economi cynaliadwy'. Yn yr un modd, gallai'r dangosyddion cenedlaethol ystyried allyriadau carbon.

<u>Sgiliau</u>
Mae'n gadarnhaol i weld y ffocws ar sgiliau, dwyieithrwydd, gweithlu'r dyfodol a dysgu seiliedig ar waith. Fel gyda'n sylw uchod, rydym yn eich annog i ystyried y cyfleoedd sydd yma i greu cysylltiadau â diwydiannau carbon isel a sgiliau natur / amaethyddol. Mae Cynllun Gweithredu Sgiliau Sero Net Cymru i fod i gael ei gyhoeddi gan Lywodraeth Cymru erbyn diwedd 2022 ac mae yna ystod o gyfleoedd cyflogadwyedd a hyfforddiant cenedlaethol, fel <u>Cyfrifon Dysgu Personol</u> sydd â'r nod o ennill sgiliau mewn 'diwydiannau gwyrdd a digidol', y gallech gyfeirio atynt a chyfeirio pobl atynt.

Mae meysydd o fewn yr amcan lle nad yw'n glir (ar hyn o bryd) beth allai'r gweithredu ei olygu. Er enghraifft, beth fyddai natur y buddsoddiad mewn addysg uwch ac addysg bellach, a sut y bydd y BGC yn hyrwyddo'r Gymraeg drwy brentisiaethau. Byddai rhagor o fanylion, yn y camau neu'r naratif ategol yn ddefnyddiol yn y cynllun llawn.

Mae'n wych i weld y cysylltiadau a wnaethpwyd â'r Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol. A oes unrhyw gysylltiadau i'w gwneud â blaenoriaethau Bargen Twf Canolbarth Cymru o fewn yr amcan hwn? Gan fod Coleg Sir Gâr a Phrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant yn cael eu cynrychioli ar y BGC, mae yn

gyfleoedd i fod yn strategol ynghylch y llwybrau sgiliau o addysg i addysg bellach, addysg alwedigaethol a'r cyfleoedd cyflogaeth o fewn sefydliadau partner BGC.

Efallai y byddai'n ddefnyddiol i gyfeirio at Bennod 2 (Cyrff Cyhoeddus a BGCau) o Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol 2020, sy'n cynnwys argymhelliad i ystyried sut y gallech weithredu '*rhaglen 'Llwybr Carlam Bywyd Go Iawn' er mwyn dod ag amrywiaeth o sgiliau, persbectifau a phrofiadau i wasanaethau cyhoeddus y dyfodol'* neu droi eich sylw at *'Gefnogi cyfleoedd i gydweithio, secondio staff i sefydliadau eraill a gwneud penodiadau ar y cyd.'*

Trafnidiaeth
Rydym yn eich cyfeirio at yr argymhellion yn y bennod 'Trafnidiaeth' yn Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol (Atodiad 1 ynghlwm). Mae hyn yn amlygu'r meysydd y gall BGCau ffocysu arnynt wrth osod camau. Er enghraifft, ymrwymo fel BGC i weithredu Siarter Teithio Iach yn eich ardal i annog staff i ddefnyddio dulliau trafnidiaeth cynaliadwy wrth deithio i'r gwaith ac o fewn y gwaith a chanolbwyntio ar newid diwylliannol ac ymddygiadol.

Mae hefyd yn argymell nodi'n glir sut mae amcanion trafnidiaeth a symudedd yn cyd-fynd â thargedau lleihau carbon. Mae trafnidiaeth gyhoeddus ddigonol yn amlwg yn cael effaith sylweddol ar gyflogaeth; mae'r Comisiynydd newydd gyhoeddi papur sy'n hyrwyddo mentrau trafnidiaeth gyhoeddus am ddim, a allai annog mwy o bobl i deithio i chwilio am gyfleoedd: 'Costau Byw: nawr ac yn y dyfodol.'

Gwaith teg
Rydym yn croesawu ychwanegu ymrwymiad y BGC i waith teg. Mae gan Iechyd Cyhoeddus Cymru adnoddau ar waith teg yma a allai fod yn ddefnyddiol i chi.

Caffael
Mae'n gadarnhaol i weld y tri cham sy'n ymwneud â chaffael o fewn yr amcan hwn a'r amcan 'Ymateb i argyfyngau hinsawdd a natur'.

Ein cyngor trosfwaol ar gamau sy'n ymwneud â chaffael yw sicrhau eu bod yn benodol, mesuradwy, cyraeddadwy, perthnaol ac wedi eu rhwymo gan amser. Ar hyn o bryd, mae'r camau sy'n ymwneud â chaffael yn eang iawn, er ei bod yn galonogol i 'w gweld yn adlewyrchu argymhellion Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol Sbotolau ar Gaffael ac Adroddiad y Comisiynydd, Darparu Llesiant yng Nghymru 2021 h.y. hyrwyddo gwariant sector cyhoeddus Cymru i gyflawni'r canlyniadau gorau ar draws pob un o bedwar dimensiwn llesiant.

Rydym hefyd yn eich annog i ystyried beth fydd natur llwyddiant i'r BGC yn y maes hwn. Er enghraifft, mae Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol yn argymell y dylai BGCau flaenoriaethu'n rhagweithiol sut y gallant gydweithio a defnyddio gwariant i facsimeiddio gwerth cymdeithasol, cyfrannu at eu hamcanion llesiant, a gwella llesiant ar lefel leol. Mae hefyd yn argymell dangos tystiolaeth o'r cyfraniad y mae caffael yn ei wneud at gyflawni amcanion llesiant.

Mae yna gyfleoedd ar gael i ystyried adeiladu cyfoeth cymunedol a sut y gallai caffael, yn unol â'r Ddeddf, fel yr amlinellir yn Taith tuag at Gymru lewyrchus, gyfrannu at waith gweddus, cymdeithas carbon isel, caffael teg a lleol, eich economi lleol, sgiliau ar gyfer y dyfodol ac effeithlonrwydd adnoddau (economi cylchol). Gall hyn helpu i leihau i raddau y pwysau costau byw yr ydych wedi'u hamlinellu.

Cyllid allanol
Tra bo'r cynllun drafft yn cyfeirio at y prosiect Economi Sylfaenol, a ariennir, nid oes unrhyw gysylltiad na chyfeiriad ato o fewn y camau. A oes cysylltiadau i'w gwneud â'i weithrediad ac â ffocws y BGC dros y 5 mlynedd nesaf?

Nodwn y cam sy'n cyfeirio at y Gronfa Ffyniant Gyffredin. Nid yw'r meini prawf ar gyfer gwneud cais i Gronfa Ffyniant Gyffredin y DU yn cynnwys nac yn cyfeirio at ofynion y Ddeddf. Rydym felly'n atgoffa BGCau bod Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol wedi ysgrifennu at bob awdurdod lleol yn ailadrodd bod angen i unrhyw brosiectau a ddygir ymlaen fod yn unol â'r ymagwedd polisi hirdymor blaengar yr ydym wedi'i sefydlu yng Nghymru drwy Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Mae'r rhwymedigaethau hyn yn parhau i fod yn berthnasol i bopeth y mae cyrff cyhoeddus a BGCau yn ei wneud, gan gynnwys wrth wneud cais am gyllid o'r tu allan i Gymru. Mae hyn yn golygu bod yn rhaid i unrhyw gynigion ddangos sut y byddai'r cyllid yn eich galluogi i gymryd pob cam rhesymol i gyflawni eich amcanion llesiant a chydymffurfio â'r egwyddor datblygu cynaliadwy.

**Amcan llesiant 2: Gwella llesiant a lleihau anghydraddoldebau iechyd**
Mae'n amlwg o'r amcan hwn, ynghyd â'ch amcan sy'n ffocysu ar drechu tlodi, fod bwriad cryf gan y BGC i wneud gwahaniaeth i wella iechyd a llesiant yn Sir Gaerfyrddin.

Mae'n dda i weld y cyfeiriad at 'symud at fodel iechyd a llesiant cymdeithasol' yn y cam cyntaf, a byddai'n ddefnyddiol yn y cynllun terfynol pe bai'n cael ei egluro i'r darllenydd beth mae'n ei olygu, pwy fydd yn ymgyfrannu a pham y gallai fod yn wahanol i ymagweddau blaenorol. Mae hefyd yn gadarnhaol bod yr amcan hwn yn cynnwys y cam sy'n ffocysu ar y modd y mae pobl yn mynychu mannau agored ac yn manteisio i'r eithaf ar yr amgylchedd naturiol – mae cysylltiadau clir y gellir eu gwneud yma â'r camau sy'n cael eu hystyried o dan yr amcan 'Ymateb i'r argyfwng hinsawdd a natur'.

Mae mynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd yn gofyn am ymagweddau amlochrog ac rydym yn eich cyfeirio at yr argymhellion allweddol yn y penodau 'Cymru Iachach' a 'Cymru Fwy Cyfartal' yn Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol 2020. Wrth osod amcanion llesiant yn y maes hwn, mae'n argymell bod Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn cydnabod penderfynyddion ehangach iechyd ac yn ceisio cydweithredu y tu hwnt i bartneriaid traddodiadol i helpu i fynd i'r afael â hwynt.

Gyda hyn mewn golwg, bydd 'sut' yr eir i'r afael â'r amcan hwn a'i gamau cysylltiedig yn bwysig iawn. I dynnu sylw at rai enghreifftiau:

- **Hirdymor:** mae tueddiadau'r dyfodol yn weddol glir o ran anghydraddoldebau iechyd, a gall defnyddio tueddiadau, senarios a sganio'r gorwel helpu partneriaid i ddeall beth sydd wrth wraidd problem, cydweithio i ddod o hyd i ddatrysiadau integredig a gwireddu pŵer ymgyfraniad.
- **Atal**: Dylai'r BGC fod yn glir ynghylch achosion sylfaenol tlodi ac anghydraddoldebau iechyd. Er gwybodaeth, mae diffiniad o wahanol fathau o atal wedi'i gynnwys isod (o dan y pennawd 'atal').
- **Ymgyfrannu:** Gwnewch gysylltiadau clir â'ch cam o dan amcan 5 i *'wneud diwylliant sy'n arwyddocaol i ddinasyddion ac ymgyfraniad rhanddeiliaid yn rhan annatod o'ch gwaith gan weithio tuag at egwyddorion cydgynhyrchu'* i ddangos sut mae'r BGC yn gweithio *gyda* chymunedau ac yn cydweithio i helpu i ganfod atebion sy'n gweithio i bobl yr ardal.
- **Cydweithio**: Rydym yn eich annog i fanteisio ar werth unigryw'r aml-asiantaethau o amgylch bwrdd y BGC a sicrhau eich bod yn ystyried pwy arall (y tu hwnt i bartneriaid BGC) y gallai

fod angen i chi weithio gyda nhw ac ennyn eu hymgyfraniad. Naill ai o fewn y camau neu'r testun ategol, byddai'n ddefnyddiol rhestru enghreifftiau o bartneriaid (fel ysgolion, canolfannau hamdden ac ati) y mae'r BGC yn bwriadu gweithio gyda nhw.

- **Integreiddio:** Dylai'r BGC fod yn chwilio am gyfleoedd i facsimeiddio'i cyfraniad i bob un o'r 7 nod llesiant a gwneud cysylltiadau ar draws y pedwar amcan llesiant arall sy'n ymwneud â ffyniant, mynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd a natur, trechu tlodi a chreu cymunedau a mannau diogel ac amrywiol.

Mae rhagor o gyngor ar gymhwyso'r dulliau o weithio ar gael yn Fframweithiau Cenedlaethau'r Dyfodol ac, yn dilyn y gweithdai a anelwyd at FGCau yr haf hwn, mae Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi ymrwymo i gynnig cymorth pellach, yn arbennig ynghylch amcanion neu gamau sy'n ymwneud ag anghydraddoldebau iechyd. Os hoffech i'n tîm gynnull cyfarfod neu gynnig cymorth pellach, rhowch wybod i ni.

**Amcan llesiant 3: Ymateb i argyfyngau hinsawdd a natur**
Mae'n galonogol i weld amcan llesiant sy'n ffocysu ar ymateb i'r argyfwng hinsawdd a natur a bod rhai o'r camau'n cwmpasu meysydd a amlinellir yn y bennod 'Cymru Gydnerth' yn Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol, e.e. datgan argyfwng natur a hinsawdd a datblygu gwybodaeth ac ymwybyddiaeth.

Fel y nodir, mae llawer o'r camau'n ffocysu'n bennaf ar 'gefnogi', 'rhannu' a 'monitro'. O gadw mewn golwg frys ac arwyddocâd yr her, rydym yn annog y BGC i fod yn fwy uchelgeisiol yn y maes hwn ac i ystyried pa gamau uniongyrchol, rhagweithiol y gall ei bartneriaid eu cyflawni, ar y cyd â sefydliadau a grwpiau allweddol eraill yn yr ardal.

Ar y cyd â hyn, gallech ystyried cyfuno rhai o'r camau ar rannu arfer gorau / deallusrwydd / gwybodaeth er mwyn osgoi dyblygu. Ar hyn o bryd, mae'n ymddangos bod rhywfaint o orgyffwrdd yn y camau sy'n ymroi i rannu gwybodaeth.

Rydym wedi sylwi bod y camau gweithredu a gynigir gan Cyfoeth Naturiol Cymru wedi'u cynnwys. Er bod hyn yn beth da i'w weld, mae'r camau'n cwmpasu meysydd eang a byddai'n ddefnyddiol gweld rhywfaint o ddehongli lleol a dealltwriaeth o ble mae gweithredu'n cael ei dargedu orau yn yr ardal. Mae'n bosibl y byddwch am ddefnyddio'r cyfle yn yr ymgynghoriad cyhoeddus ar eich cynllun drafft i ddehongli'r camau gweithredu posibl hyn ymhellach. Gall fod yn annhebygol i'r BGC a'i bartneriaid fedru cymryd camau ar bopeth a restrir ar hyn o bryd. Bydd hi'n bwysig yn hyn o beth o gyfeirio at yr argymhellion a restrir yn Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol a'ch sgyrsiau gyda Cyfoeth Naturiol Cymru.

Mae'r amgylchedd naturiol yn chwarae rhan arwyddocaol wrth gefnogi iechyd pobl a llesiant cymunedol a gellir gwneud cysylltiadau clir â'r cam o dan amcan 2 ar '*Galluogi pobl i fanteisio ar ein mannau agored a rennir, a manteisaio i'r eithaf ar ein hamgylchedd naturiol* …'. A all y cam hwn fynd ymhellach ac ymroi i wella'r amgylchedd lleol a mannau gwyrdd/glas yn Sir Gaerfyrddin?

Rydym hefyd yn eich annog i archwilio unrhyw gysylltiadau y gellir eu gwneud, a'ch camau ar sgiliau o dan amcan 1 ac adferiad natur, gan helpu i baratoi pobl â sgiliau addas ar gyfer y dyfodol.

Megis yn ein cyngor uchod ar amcan 1, rydym yn eich annog i sicrhau bod eich holl gamau yn: benodol, mesuradwy, cyraeddadwy, perthnasol ac wedi eu rhwymo gan amser.
Caffael

Mae yna ddau gam sy'n berthasol i gaffael o dan yr amcan hwn ac rydym yn eich cyfeirio at ein cyngor uchod o dan amcan 1.

Parthed y cam i *'rannu arfer gorau ar leihau carbon drwy ein prosesau caffael,* bydd yn bwysig i ddechrau drwy ddiffinio beth yw arfer da yn y maes hwn ac rydym yn eich cyfeirio at ein Hadroddiad Caffael a datganiad Polisi Caffael Cymru.

Megis gyda'n cyngor mewn meysydd eraill, po fwyaf o ddulliau o weithio sy'n cael eu cymhwyso, mwya'i gyd sy'n cael ei gyflawni. Er enghraifft: ennyn ymgyfraniad cyflenwyr, y gymuned, y trydydd sector a'r rhwydweithiau caffael ac ati yn eich gwaith; cydweithio gyda BGCau eraill a chyrff cyhoeddus (cytundebau cyd-bartneriaethau, fframweithiau rhanbarthol); ac integreiddio rhwng y gwahanol dimau mewnol – cynllunio comisiynu, caffael a rheoli contract.

Tra'i bod yn gadarnhaol i weld y cam i '*fonitro cymalau cymdeithasol ac amgylcheddol mewn contractau…*', byddai'n elwa o gael gwybodaeth (o fewn y cam neu'r testun ategol) ar ba gamau penodol y gallai'r BGC eu cymryd os nad yw'r canlyniadau a gaiff eu monitro yn cyflawni'r gobeithion.

**Amcan llesiant 4: Mynd i'r afael â thlodi a'i effeithiau**
Fel y cynghorwyd gennym eisoes, ein hargraff o'n cyfarfodydd rheolaidd yw bod bwriad gan y BGC i helpu i fynd i'r afael â thlodi a'i effeithiau yn Sir Gaerfyrddin ac rydym yn cymeradwyo eich gwaith hyd yn hyn.

Rydym yn cydnabod bod rhai o'r camau'n ymddangos fel rhai sy'n cyd-fynd â gwaith Sefydliad Bevan sydd wedi argymell bod angen mwy o godi ymwybyddiaeth ledled Cymru i helpu pobl i gael mynediad i'r cymorth y mae ganddynt hawl iddo, yng nghyd-destun yr argyfwng costau byw. Ac o fewn yr amcan hwn, mae ffocws arbennig o gryf ar godi ymwybyddiaeth, cyfeirio, rhannu gwybodaeth, cefnogi rhaglenni ac ystyriaeth o wybodaeth a chanfyddiadau. Os mai dyma'r lle gorau i gyd-ymdrech y BGC gael ei thargedu, byddai'n ddefnyddiol i gael esboniad o'r ymagwedd hon yn y cynllun terfynol.

Mae'r pum cam cyntaf yn cysylltu'n uniongyrchol â chasglu a rhannu gwybodaeth i helpu preswylwyr i gael mynediad i'r cymorth y mae ganddynt hawl iddo. Mae yna gyfleoedd posibl i ddod â rhywfaint o'r gweithgaredd at ei gilydd mewn llai o gamau gan osgoi dyblygu ymdrech.

Mae'r Comisiynydd wedi galw am weithredu mwy pwrpasol yn awr ac ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol yn ei phapur a gyhoeddwyd yn ddiweddar, y cyfeirir ato uchod, 'Costau Byw: nawr ac yn y dyfodol.' Tra nad yw rhai o'r penderfyniadau polisi hyn o fewn cylch gorchwyl y BGC, byddem yn yn eich annog i ystyried beth sy'n bosibl, a phŵer y BGC i annog Llywodraeth Cymru (ac eraill) i newid polisi fel ei fod o fudd i'w cymunedau yn ystod yr argyfwng hwn.

Yn ein cyfarfodydd, rydym wedi trafod pwysigrwydd ennyn ymgyfraniad pobl ac i FGCau harneisio sgiliau a chydnerthedd pobl sydd â phrofiad byw o faterion perthnasol. Mae wedi bod yn gadarnhaol felly i glywed am rywfaint o'r gweithgaredd sy'n cael ei gynllunio gan y BGC i gasglu profiadau bywyd ac ymgorffori cyd-gynhyrchu. Mae llawer o'r argymhellion a gyhoeddwyd gan Archwilio Cymru yn eu hadroddiad 'Amser am Newid – Tlodi yng Nghymru' (2022) yn berthnasol yma, gan gynnwys dwyn partneriaid at ei gilydd fel rhan o'u cynllunio llesiant a gwerthfawrogi pa mor anodd yw hi i lywio gwasanaethau cyhoeddus o'r tu allan, yn enwedig pan fydd pobl mewn argyfwng.

Fel y cynghorwyd eisoes, mae'n ymddangos bod geiriad rhai camau yn ffocysu'n bennaf ar y presennol. Tra'n bod yn gwerthfawrogi eich bod yn edrych ar strwythur tymor byr – canolig – hirdymor defnyddiol ar gyfer y cynllun llesiant, rydym yn pwysleisio pwysigrwydd archwilio a datblygu datrysiadau tymor hwy a fydd yn helpu'r BGC i fynd i'r afael ag achosion sylfaenol a lliniaru effeithiau yn eich cymunedau. Fel y dywed y canllawiau statudol ar gyfer BGC (SPSF3) *'Dylid sicrhau'r cydbwysedd cywir rhwng cyflawni ar gyfer y tymor byr a gwneud hynny yng nghyd-destun blaenoriaethau ar gyfer yr hirdymor.'*

O ran tlodi tanwydd ac effeithlonrwydd ynni (cam 2), a oes cysylltiadau i'w gwneud rhwng eich camau o dan amcanion 1 a 3, yn arbennig ynghylch sgiliau, caffael lleol a lleihau allyriadau? Gellir dod o hyd i'r argymhellion mwyaf perthnasol yn Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol yn y penodau 'Cymru Lewyrchus,' 'Cymru Iachach,' 'Cymru Fwy Cyfartal' a 'Cymru o Gymunedau Cydlynol', yn ogystal â'r bennod sy'n canolbwyntio ar Brofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod'.

**Amcan llesiant 5: Helpu i greu cymunedau a mannau diogel ac amrywiol**
Mae'r amcan hwn yn cwmpasu ystod eang o feysydd a materion megis trosedd a diogelwch, ymgyfraniad, asedau cymunedol, amrywiaeth a'r iaith Gymraeg. Tra'i bod yn wych i weld rhai o'r meysydd ffocws o fewn yr amcan hwn, mae yna risg y gallai ymrwymo i gymaint o gamau (14) o dan un amcan ei gwneud yn heriol i'r BGC a'i bartneriaid gymryd camau arwyddocaol ar bopeth a sydd wedi eu rhestru ar hyn o bryd.

Ennyn ymgyfraniad pobl
Mae llawer o ffocws yr amcan hwn ar greu a sefydlu'r amgylchedd iawn i bobl, gweithio *gyda* phobl a chefnogi pobl yn eich cymunedau. Mae hyn yn awgrymu y bydd y cam drafft sy'n ffocysu ar ymgyfraniad (dull o weithio) sy'n bwriadu '*Sefydlu diwylliant ymgyfrannu arwyddocaol i ddinasyddion a rhanddeiliaid a gweithio tuag at egwyddorion cydgynhyrchu'* yn arbennig o bwysig ar gyfer gwneud cynnydd o dan yr amcan hwn (ac eraill) dros y 5 mlynedd nesaf.

Fel y cynghorwyd eisoes, mae arferion ymgyfrannu a chydgynhyrchu yn ddulliau penodol o weithio sy'n gofyn am y sgiliau cywir, ac mae buddsoddi amser ac adnoddau i staff ddatblygu'r sgiliau hyn yn hanfodol. Mae'n wych felly i weld y bydd eich BGC, ochr yn ochr â Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion a Sir Benfro, yn cael cefnogaeth Rhwydwaith Cydgynhyrchu Cymru.

Gan gadw hyn mewn golwg, ystyriaeth ar gyfer yr amcan hwn yw i ba raddau y gall ymrwymiad y BGC i ymgyfrannu fod yn sylfaen ar gyfer symud camau gweithredu mewn meysydd eraill yn eu blaen? Er enghraifft, sut y gallai ymgyfraniad a chyd-gynhyrchu arwyddocaol yn Sir Gaerfyrddin helpu i drwytho a llunio eich camau gweithredu arfaethedig ar:

- Alluogi pobl i ymgysylltu â materion sy'n bwysig iddyn nhw?
- Helpu cymunedau i fod â chysylltiadau da a bod yn ddiogel?
- Cefnogi pobl o bob oed?
- Amgylcheddau ffisegol a digidol hygyrch?
- Gweithio i arallgyfeirio eich gweithluoedd?
- Hyrwyddo gwirfoddoli?

Sut fedr Cynghorau Tref a Chymuned yr ardal charae rhan, a'r sector gwirfoddol ehangach? Gall ffocws clir ar newid dulliau o weithio gynnig cyfleoedd i'r BGC gysylltu rhai o'r gweithgareddau a amlinellwyd â'i gilydd, gan osgoi dyblygu a dod â phobl yn eich cymunedau gyda chi.

<u>Amrywiaeth</u>
Mae'n galonogol i weld y cam i *'weithredu'n gadarnhaol i amrywio ein gweithluoedd a dysgu o brofiadau bywyd'* sy'n adlewyrchu argymhelliad ym mhennod 2 Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol. Er gwybodaeth,mae'r argymhellion a geir ym mhennod 'Cymru Fwy Cyfartal' yr adroddiad hefyd yn berthnasol yn y maes hwn, sy'n cynnwys:

- *'Mabwysiadu mesurau rhagweithiol wrth osod amcanion a chamau llesiant sy'n cynnwys gosod targedau heriol ar gyfer recriwtio, cadw a sicrhau cynnydd menywod, pobl dduon, grwpiau Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig a phobl anabl; gan wneud yn siwr eu bod yn weladwy ac yn cael eu cynrychioli ar bob lefel yn eu sefydliad.'*
- *'Mabwysiadu camau gweithredu'r strategaeth Amrywiaeth a chynhwysiant ar gyfer penodiadau cyhoeddus, gyda'r nod o ddarparu cyfle cyfartal i bawb.'*

Fel y cyfeirir ato uchod o dan ein sylwadau ar sgiliau, mae Pennod 2 hefyd yn cynnwys argymhelliad i ystyried sut y gallech roi rhaglen *'Llwybr Carlam Bywyd Go Iawn' ar waith er mwyn dod ag amrywiaeth o sgiliau, persbectifau a phrofiadau i wasanaethau cyhoeddus y dyfodol' neu droi eich sylw at 'Gefnogi cyfleoedd i gydweithio, secondio staff i sefydliadau eraill a gwneud penodiadau ar y cyd.'*

<u>Y Gymraeg</u>
Croesewir y ffocws ar y Gymraeg yn y cynllun drafft. Mae Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg wedi cynghori y dylai cynlluniau llesiant BGC gyd-fynd â Strategaeth Hybu'r Gymraeg ym mhob ardal ac mae'n dda gweld y cynllun drafft yn creu cysylltiadau clir â hyn.

Mae hefyd yn dda i weld y cam i *'hyrwyddo diwylliant a'r Gymraeg fel sbardun ar gyfer newid economaidd ac amgylcheddol'*. Mae'r argymhellion ym mhennod 'Cymru â Diwylliant Bywiog a Chymraeg Ffyniannus' yn Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol yn cynnwys (er enghraifft) ennyn ymgyfraniad cynrychiolwyr celfyddydol a diwylliannol yng ngwaith y BGC; gan wneud y gorau o asedau lleol i gefnogi llesiant cymunedol; a manteisio i'r eithaf sr sefydliadau cymunedol a grwpiau ieuenctid i bontio'r bwlch a dod â diwylliant i'r mannau lle mae pobl.

Fel yr ydym wedi'i gynghori uchod, mae cyfleoedd ar gyfer integreiddio lle gellir hybu'r Gymraeg drwy weithgareddau eraill y BGC yn y cynllun llesiant drafft megis y gwaith ar sgiliau a phrentisiaethau a chymalau o fewn contractau caffael.

Mae adnoddau Comisiynydd y Gymraeg 'Ystyried y Gymraeg yn y Cynlluniau Llesiant Lleol' wedi ei atodi ar eich cyfer, a gobeithiwn y byddant yn ddefnyddiol i chi.

## 2: Y pum dull o weithio

Bydd i ba raddau y mae'r BGC yn llwyddo i gyflawni'r camau gweithredu sydd wedi'u cynnwys yn eich cynllun llesiant terfynol yn dibynnu llawer iawn ar i ba raddau y byddwch yn cymhwyso'r pum dull o weithio.

Mae'n gadarnhaol i weld nodyn yn ceisio esbonio sut mae'r dulliau o weithio'n cael eu cymhwyso i ddatblygu pob amcan ynghyd â'i gamau yn eich cynllun llesiant drafft. Mae'r Comisiynydd (ac Archwilydd Cyffredinol Cymru) wedi dweud yn aml y dylai cyrff cyhoeddus a Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus 'ddangos eu gwaith' yn y modd hwn i gadarnhau bod y ddeddfwriaeth yn cael ei rhoi ar waith ac yn ysbrydoli eraill i wneud yr un peth.

Fel y nodir, mae'r paragraffau'n ymdrin â rhai o'r dulliau o weithio ond nid pob un; ac maent ar y cyfan yn ailadrodd y diffiniadau statudol yn hytrach na myfyrio ar yr hyn y mae pob un yn ei olygu i chi fel BGC. Mae ein cyngor yn tynnu sylw at y cyfleoedd ar gyfer integreiddio, cydweithio, arddangos atal a myfyrio hirdymor ac ati. Wrth i chi dderbyn y cyngor hwn a pharhau i ddatblygu eich amcanion a'ch camau fel BGC, rydym yn awgrymu mireinio'r paragraffau hyn i egluro'n well eich ystyriaethau wrth i chi ddrafftio eich cynllun. Byddem hefyd yn argymell dangos sut y byddwch yn cymhwyso'r dulliau o weithio wrth gyflawni pob amcan (nid yn unig penderfynu arno) a gwerthuso effaith eich cyflawniad.

**Ymgyfraniad**
Yn ein cyfarfodydd, rydym wedi trafod gwaith Rhwydwaith Cydgynhyrchu Cymru gyda'r tri Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yng ngorllewin Cymru, sydd bellach ar y gweill. Mae hon yn rhaglen gymorth 4 blynedd, lle byddwch yn cael cymorth i ymgysylltu â dinasyddion mewn dull arwyddocaol a dod â grwpiau amrywiol o unigolion at ei gilydd i gydgynhyrchu datrysiadau i broblemau lleol, gan helpu i gyflawni rhai o'r gweithgareddau yr ydych wedi'u hamlinellu.

Yn ein cyfarfod diweddaraf (31 Hydref 2022), roedd yn galonogol  i glywed trosolwg o rywfaint o'r gwaith ymgyfrannu sy'n cael ei wneud, gyda'r ymgynghoriad cyhoeddus ar y cynllun llesiant drafft, gan gadw'i gyflawniad tymor hwy mewn golwg hefyd. Er enghraifft, gwybodaeth am weithdai, sgyrsiau, a'ch gwaith gyda 'People Speak Up' ar brosiectau mewn trefi ar draws yr ardal, sy'n cynnwys ffocws ar brofiadau byw a chwilio am farn lleisiau nas clywir yn aml.

Mae hefyd yn dda i weld bod rhagair drafft eich cynllun yn datgan: "*Rydym yn adeiladu partneriaethau cryfach gyda'n cymunedau. Byddwn yn hyrwyddo cydgynhyrchu fel y gall trigolion ddod at ei gilydd i helpu i wella eu bywydau a datrys y problemau sy'n bwysig iddynt. Mae angen i'n gwaith ymgyfrannu adlewyrchu ein holl gymunedau felly byddwn yn cynyddu ein hymdrechion i gefnogi ac ymgysylltu â'r rhai nad yw eu lleisiau fel arfer yn cael eu clywed.*"

Yn yr adran 'Camau Nesaf', mae'r cynllun drafft yn amlygu'r modd y bydd cyfranogiad parhaus a chydgynhyrchu yn faes gwaith allweddol i'r BGC ac mai'r bwriad yw adeiladu ar waith 'Fframwaith Ymgysylltu Parhaus' cydweithwyr yn y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol i sicrhau eich bod yn ennyn ymgyfraniad ac yn cydweithio drwy gydol oes y cynllun newydd. Rydym yn nodi y byddwch yn cynnwys rhagor o wybodaeth am eich sgyrsiau a'ch gwaith ymgyfrannu yn fersiwn terfynol y cynllun llesiant, ac edrychwn ymlaen at weld hyn.

Fel yr ydym wedi'i gynghori uchod o dan amcan 5, roedd eich camau drafft yn canolbwyntio ar ymgyfrannu, a'ch gwaith gyda Rhwydwaith Cydgynhyrchu Cymru yn arbennig o arwyddocaol i'r BGC dros oes y cynllun llesiant. Ystyrir symud tuag at ffordd fwy cydgynhyrchiol o weithio fel arfer da, a'n cyngor ni yw sicrhau bod y BGC wedi ymrwymo'n llwyr i'r cam hwn i helpu i ysgogi newid yn eich ardal a dangos y manteision o wneud hynny.

**Cydweithio**
Mae'r bennod 'Ein Partneriaethau yn Sir Gaerfyrddin' yn amlygu pwysigrwydd cydweithio a gweithio mewn partneriaeth yn yr ardal, a'i rôl bwysig wrth gyflawni'r amcanion a'r camau drafft.
Mae'n amlwg o'n cyfarfodydd bod partneriaid y BGC wedi ymgyfrannu yn y gwaith o ddatblygu'r amcanion a'r cynllun llesiant drafft ac rydym yn cydnabod pa mor bwysig ydoedd i'r BGC geisio barn y partneriaid allweddol cyn rhannu manylion am y camau gyda'n swyddfa.

Yn ein trafodaethau, gwnaethoch grybwyll gweithio gyda'ch partneriaid BGC i ganfod cyffredinedd ac asesu ble fedrai cynlluniau BGC ychwanegu gwerth, drwy gyfres o gwestiynau a ofynnwyd i

sefydliadau partner. Mae hon yn enghraifft wych o waith sy'n helpu i ganfod y man gorau i'r BGC facsimeiddio effaith yn yr ardal.

Gan adeiladu ar hyn, rydym yn eich annog i ystyried pwy arall y gallai fod angen i chi weithio gyda nhw ac ennyn eu hymgyfraniad i helpu i gyflawni eich camau a chyflawni eich amcanion. Ni ddylai cydweithredu gael ei gyfyngu i bartneriaid y BGC yn unig a bydd ymagwedd bartneriaeth gref gyda'r sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector yn hanfodol i gyflawni'r newid yr ydych yn ceisio'i gyflawni.

Bydd hefyd yn bwysig i'ch BGC ystyried ystod o opsiynau cydweithredol sy'n torri ar draws ffiniau sefydliadol (ac o bosib, sectorau). Gallai hyn gynnwys cydleoli staff, chwalu strwythurau traddodiadol, trefnu cyfnewid swyddi a secondiadau a chyfuno adnoddau.

**Integreiddio**
Mae'r Ddeddf yn nodi y dylai amcanion llesiant gael eu hintegreiddio, h.y. dylech ystyried y modd y mae eich amcanion yn effeithio ar, neu sut y gallent effeithio ar bob un o'r nodau llesiant. Mae hyn yn golygu y bydd angen i bob un o'ch amcanion ddangos eich bod yn cymryd camau sy'n cynyddu eich cyfraniad i bob un o'r nodau llesiant.

Fel yr ydym wedi'i gynghori yn ein sylwadau uchod, rydym yn eich annog i ystyried y rhyng-gysylltiadau rhwng blaenoriaethau o'ch eiddo sy'n ymddangos, er mwyn helpu i drwytho eich penderfyniadau ynghylch y camau mwyaf effeithiol ac ymgyfraniad pwy fydd ei angen. Er enghraifft, y cyfleoedd i wneud cysylltiadau rhwng eich amcan llesiant cyntaf a'ch trydydd amcan llesiant ar yr economi a datgarboneiddio, a rhwng eich ail a'ch trydydd amcan ar wella llesiant a rôl yr amgylchedd naturiol yn y dasg o wella llesiant pobl.

Yn seiliedig ar eich gwaith cydweithredol hyd yma, dylai fod gan y BGC ddealltwriaeth dda o weithgarwch presennol sefydliadau partner. Dylai hyn fod yn eich helpu i ddeall y cyfraniad y gallent fod eisoes yn ei wneud i amcanion a pha mor wahanol y gallai hyn fod yn y dyfodol i helpu'ch BGC i ysgogi newid yn ei ardal. Gall y byddwch hefyd yn dymuno ystyried a oes unrhyw rwystrau neu densiynau'n bodoli rhwng amcanion sefydliadol yr ardal, a'r camau posibl y gallwch chi (neu eraill) eu cymryd i gael gwared ohonynt.

**Hirdymor**
Tra bod pwysau a heriau sylweddol yn bodoli yn y presennol, megis yr argyfwng costau byw, rydym yn pwysleisio pa mor bwysig yw hi i FGCau archwilio a datblygu datrysiadau tymor hwy sy'n helpu i fynd i'r afael ag achosion sylfaenol ac sy'n lliniaru effeithiau yn eich cymunedau. Fel y dywed y canllawiau statudol ar gyfer Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus (SPSF3): *'Dylid sicrhau'r cydbwysedd cywir rhwng cyflawni ar gyfer y tymor byr a gwneud hynny yng nghyd-destun blaenoriaethau ar gyfer yr hirdymor.'*

Mae eich asesiad llesiant yn cynnwys data a gwybodaeth o Adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol Cymru ac rydym yn nodi'r sylwadau yn eich cynllun drafft eich bod yn *"parhau ar daith sy'n hirdymor ac a fydd yn llunio ein dyfodol dros yr 20 mlynedd nesaf neu fwy."* Yn ein cyngor i chi ar eich asesiad llesiant drafft, fe wnaethom gynghori'r BGC i ystyried beth allai goblygiadau tueddiadau'r dyfodol a amlygwyd gennych ei olygu i'ch ardal.

Mae'r cam drafft sy'n ffocysu ar ymgyfraniad a chyd-gynhyrchu yn gyfle i archwilio rhai o'r tueddiadau hyn yn y dyfodol yn llawnach gyda'r bobl a'r cymunedau a allai gael eu heffeithio fwyaf, gyda chefnogaeth Rhwydwaith Cydgynhyrchu Cymru. Byddai hyn yn helpu i sicrhau bod eu lleisiau'n

cael eu clywed ac yn rhoi gwell dealltwriaeth i'r BGC o'u pryderon a'u blaenoriaethau ar gyfer gweithredu.

Rydym eisoes wedi rhannu'r adroddiad 'Anghydraddoldeb yng Nghymru'r Dyfodol' sy'n amlygu y gallai newid yn yr hinsawdd gynyddu anghydraddoldebau os nad yw'r effeithiau ar wahanol grwpiau mewn cymdeithas yn cael eu hystyried. Mae ail gyfnod y gwaith hwn bellach wedi'i gwblhau ac mae'n cynnwys adnoddau ac offer i lunwyr polisi weithredu technegau creadigol y dyfodol i ennyn ymgyfraniad cymunedau mewn meddwl hirdymor. Mae'r adnoddau ar gael yma:

- Creative Futuring Methods Report
- Storybook

Os ydych chi'n ei chael hi'n anodd defnyddio ac ymgorffori data a gwybodaeth tymor hwy yn eich cynllun drafft, byddem yn eich annog i fyfyrio ar hyn yn eich cynllun a/neu gyda'n swyddfa ni yn uniongyrchol. Bydd hyn yn ddefnyddiol i'n swyddfa, Llywodraeth Cymru, Iechyd Cyhoeddus Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru ac eraill wrth i ni barhau i gydweithio i helpu i ganfod dulliau y gallwn eu defnyddio i gefnogi BGCau (a chyrff cyhoeddus) dros y pum mlynedd nesaf gyda'r dyfodol a rhagweledìad.

**Atal**

Fel yr ydym wedi'i gynghori'n flaenorol, bydd bod yn glir ynghylch yr achosion sydd wrth wraidd problemau, yn hytrach na'r symptomau, yn helpu eich BGC i ganfod beth yw'r mesurau ataliol mwyaf effeithiol a phryd a ble i ymyrryd.

Rydym eisiau gweld BGCau yn archwilio sut maen nhw'n torri cylchoedd ac yn twrio'n ddyfnach i ddata i ddeall yn well achosion ac effeithiau materion a thueddiadau allweddol er mwyn trwytho eich camau. Dylai eich asesiad llesiant a gyhoeddwyd yn ddiweddar fod yn helpu eich BGC i ddeall yr hyn yr ydych yn ceisio ei atal, ond rydym yn gwerthfawrogi nad ydych efallai yn gyfarwydd â'r darlun llawn eto.

Isod wele ddiffiniad o atal a allai fod yn ddefnyddiol i greu cyd-destun a'ch helpu i roi eich meddwl ar waith:

- **Atal sylfaenol** – Adeiladu cydnerthedd – creu'r amodau lle nad yw problemau'n codi yn y dyfodol. Ymagwedd fyd-eang.
- **Atal Eilaidd** - Targedu gweithredu tuag at feysydd lle mae perygl mawr fod problem yn mynd i ddigwydd. Ymagwedd wedi ei thargedu, sy'n uno egwyddorion cyffredinoliaeth flaengar.
- **Atal Trydyddol** - Ymyrryd os oes problem, i atal y broblem rhag gwaethygu a'i hatal rhag digwydd eto yn y dyfodol. Ymagwedd seiliedig ar ymyrraeth.
- **Gwariant aciwt** - Gwariant, sy'n gweithredu i reoli effaith sefyllfa hynod negyddol ond nad yw'n gwneud llawer neu'n gwneud dim byd i atal problemau rhag digwydd yn y dyfodol. Ymagwedd adferol.

## 3: Sylwadau eraill

**Gosod camau a mesur cynnydd**

Yn ein cyfarfodydd, rydym wedi trafod dod o hyd i gydbwysedd rhwng penodoldeb camau, a phwysigrwydd cael rhywfaint o hyblygrwydd yn y geiriad i sicrhau eu bod yn addas i'r diben dros y pum mlynedd nesaf. Fe wnaethom hefyd nodi eich sylwadau y gallai rhai o'r camau fod yn eang ac y

bydd y BGC yn mabwysiadu ymagwedd fwy 'gorchwyl a gorffen' at y manylion/cyflawniad unwaith y bydd y cynllun wedi'i gyhoeddi. Fel y cynghorwyd, byddai cynnwys myfyrdodau ac ystyriaethau fel y rhain yn y cynllun terfynol yn ddefnyddiol iawn.

Tra'n bod yn gwerthfawrogi bod cytuno ar eiriad terfynol y camau yn her i bob BGC, mae rhai o'r camau a nodwyd, ar hyn o bryd, yn weddol amwys. Rydym yn argymell rhoi ystyried bellach sy'n gofyn a allai'r camau gweithredu penodol y mae'r BGC yn eu cynnig gael eu gwneud yn fwy eglur, ac yn unol â'n cyngor uchod, rydym yn eich annog i sicrhau bod eich holl gamau'n rhai: penodol, mesuradwy, cyraeddadwy, perthnasol ac wedi eu rhwymo gan amser. Sylwer y gellir cynnwys rhywfaint o'r manylion hyn yn y testun ategol yn y cynllun terfynol.

**Gweithgaredd sefydliadol a gwerth ychwanegol**
Pwynt allweddol i'r BGC ei ystyried yw egluro'r modd y bydd y cynllunio ar y cyd, a'r camau gweithredu sy'n cael eu cymryd nawr yn wahanol i'r hyn sydd wedi cael ei wneud o'r blaen. Mae hyn yn rhywbeth yr ydym wedi'i drafod yn ein cyfarfodydd, a byddai'n ddefnyddiol i ddeall a yw'r BGC yn glir ynghylch y camau ble mae'r BGC yn teimlo ei fod yn 'ychwanegu gwerth', a'r camau y gallai aelod-sefydliadau fod yn arwain arnynt eisoes.

O'r wybodaeth a rannwyd gyda ni ym mis Hydref, gyda chwestiynau a ofynnwyd i bartneriaid BGC ar gyffredinedd, eu polisïau, eu rhaglenni a'u strategaethau perthnasol, enghreifftiau o arfer gorau ac ati, rydym wedi ein bodloni bod y BGC wedi bod yn ceisio nodi gweithgarwch parhaus ar draws y sefydliadau partner a'r modd y gallai gysylltu â gwaith arfaethedig y BGC. Dylai hyn eich helpu i ddeall nid yn unig y cyfraniad y mae sefydliadau eisoes yn ei wneud i'ch amcanion a'ch camau arfaethedig, ond hefyd sut y gellid bod angen i weithgarwch unigol a chyfunol addasu i helpu i ysgogi newid yn y maes.

**Strwythur**
Mae'n ddefnyddiol i weld yr adran 'Myfyrio ar ein Cynllun Llesiant 2018-2023' yn y cynllun, sy'n rhoi trosolwg cryno o rai o'r mentrau a'r rhaglenni y mae'r BGC a'i bartneriaid wedi canolbwyntio arnynt dros y pum mlynedd diwethaf. Er enghraifft, y cyllid o £100k i ddatblygu prosiect Cronfa Her yr Economi Sylfaenol sy'n edrych ar gaffael bwyd yn y sector cyhoeddus.

Yn ystod ein cyfarfodydd, rydych wedi trafod myfyrio ar y cynllun llesiant cyntaf i weld beth y gellid ei wella. Roedd hyn yn cynnwys newidiadau posibl mewn ymagwedd at rôl fwy canolog, arddull tasg a gorffen i ysgogi newid a chynnydd yn eich ardal. Ochr yn ochr â'r wybodaeth sydd eisoes wedi'i gosod, byddai'n ddefnyddiol i weld myfyrdodau fel hyn yn cael eu cynnwys yn y cynllun terfynol.

Mae'n wych i weld y cynllun drafft yn gwneud cysylltiadau clir â'r asesiad llesiant, yn y bennod 'Sut y gwnaethom ddatblygu'r Cynllun Llesiant'. Mae'r bennod 'Cipolwg ar Sir Gaerfyrddin' yn ddefnyddiol ond gallai wneud cysylltiadau cliriach â'r asesiad llesiant.

Un o gryfderau'r cynllun drafft yw'r strwythur clir o amgylch pob un o'r amcanion a'r camau llesiant. Mae hyn yn cynnwys tystiolaeth allweddol o'ch asesiad llesiant, eich gweledigaeth fel BGC, naratif ar y pum dull o weithio, a chyfeiriad at ddangosyddion cenedlaethol a cherrig milltir.

Mae'n ddefnyddiol i weld y bydd y cynllun yn nodi ei weithrediadau (y camau) dros oes y cynllun yn y tymor byr, canolig a hirdymor. Dylai hyn helpu'r BGC i fod yn glir ar gynnydd dros y pum mlynedd nesaf.

**Cynghorau Tref a Chymuned**
Mae'n wych gweld y cynllun drafft yn amlinellu'r wyth Cyngor Tref a Chymuned o fewn yr ardal sy'n dod o dan y Ddeddf a'r gwaith a wnaethoch i ymgynghori â nhw ar eich asesiad llesiant a'ch cynllun drafft, gan eu hannog i ystyried sut y gallant gyfrannu at gyflawni amcanion y Cynllun.

**Cynyddu ymwybyddiaeth o'r BGC a'i waith**
Mae'n dda bod y BGC yn ystyried dulliau o godi ymwybyddiaeth o'i waith. Gallai mecanweithiau gynnwys trafodaethau ar themâu penodol 'ffrydio byw' gydag aelodau BGC, gwella tryloywder a gwahodd rhyngweithio, defnyddio dull 'Dywedoch chi, Fe wnaethom ni', a phresenoldeb PSB wyneb yn wyneb mewn lleoliadau neu ddigwyddiadau allweddol.

Gallai dogfennu, coladu a dathlu mentrau llesiant llwyddiannus fod yn ffordd o ymgysylltu â chymunedau mewn dull arwyddocaol, rhoi cynnyrch o werth iddynt, gan godi ymwybyddiaeth o'r BGCau ac arfer da yn y broses. I amlygu un enghraifft, mae gan Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Benfro y 'Wobr Balchder yn Sir Benfro'.

## Crynodeb o'r gweithgaredd rhwng BGC Sir Gaerfyrddin a Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol yn ystod y cyfnod cynghori statudol 14 wythnos.

Isod wele gofnod o'r ohebiaeth yn ystod y cyfnod ymgynghori:

| Dyddiad | Gweithgaredd | Sylwadau |
|---|---|---|
| 12fed Gorffennaf 2022 | Ebost yn sbarduno cychwyn ymgynghoriad 14 wythnos. | • Ebost oddi wrth Sir Gaerfyrddin.<br>• Cynnwys atodiad a oedd yn amlinellu 5 amcan drafft y BGC. |
| 20fed Gorffennaf 2022 | Cyfarfod cyntaf rhwng BGC Sir Gaerfyrddin a Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol (OFGC) | • Cyfarfod rhagarweiniol cadarnhaol.<br>• Cytunwyd ar amserlenni, gyda Sir Gaerfyrddin yn gofyn am gyngor oddi wrth OFGC i'w rannu erbyn 21ain mis Medi.<br>• Diweddariad oddi wrth Sir Gaerfyrddin ar y cyfnod rhwng asesiad llesiant a drafftio amcanion a chamau.<br>• Croesawyd deialog barhaus a chytunwyd i gyfarfod eto ym mis Awst. |
| 15fed Awst 2022 | Ail gyfarfod rhwng BGC Sir Gaerfyrddin ac OFGC | • Y wybodaeth ddiweddaraf oddi wrth Sir Gaerfyrddin a'r OFGC.<br>• Cytunwyd y byddai camau/pynciau'n cael eu rhannu gyda ni yn gynyddol.<br>• Trafodwyd: y cynllun cyntaf, cadeirydd newydd y BGC, olion troed rhanbarthol a rhwydweithiau ehangach (e.e. CJCs a bargeinion twf rhanbarthol).<br>• Cytunwyd ar amserlenni a dyddiad cyfarfod ôl-BGC (4ydd Hydref 2022). |
| 16eg Awst 2022 | Ebost OFGC i Sir Gaerfyrddin | • Rhannwyd dogfen (a baratowyd gan Cyfoeth Naturiol Cymru) sy'n amlygu camau y gall BGCau eu cymryd i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd a natur. |

| | | |
|---|---|---|
| 14eg Medi 2022 | Ebost oddi wrth Sir Gaerfyrddin | • Manylion un amcan a chamau cysylltiedig wedi eu rhannu gyda OFGC (mynd i'r afael â thlodi) ar gyfer adborth. |
| 21ain Medi 2022 | Ebost OFGC i Sir Gaerfyrddin | • Cyngor cychwynnol wedi ei ddarparu i Sir Gaerfyrddin ar yr amcan tlodi a chamau. |
| 4ydd Hydref 2022 | Trydydd cyfarfod rhwng BGC Sir Gaerfyrddin a'r OFGC | • Trafodwyd cynnydd ac amserlenni.<br>• Sir Gaerfyrddin yn aros am adborth oddi wrth bartneriaid BGC cyn rhannu drafft gyda OFGC. |
| 18fed Hydref 2022 | Cyfnewid ebyst | • Diwedd ffurfiol i'r cyfnod cyngor statudol.<br>• Cytunwyd ar estyniad i ganiatáu i OFGC ddarparu cyngor a chymorth parhaus. |
| 27ain Hydref 2022 | Ebost oddi wrth Sir Gaerfyrddin | • Drafftio cynllun llesiant a rannwyd gyda OFGC i ddarparu cyngor ac adborth. |
| 31ain Hydref2022 | Galwad diweddaru | • Trafod cynnydd a chytuno ar amserlenni. |
| 9fed Tachwedd | Ebost oddi wrth OFGC | • Rhannu cyngor gyda Sir Gaerfyrddin. |